Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/FM/0506/19 D4

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

llywydd@assembly.wales

3 Gorffennaf 2019

Annwyl Elin,

**Rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n clymu'r Deyrnas Unedig**

Ysgrifennaf atoch i ofyn am farn y Pwyllgor Busnes ynglŷn ag ymgysylltiad y Cynulliad Cenedlaethol â rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n clymu'r Deyrnas Unedig (DU). Mae'r mater hwn wedi codi'n ddiweddar yng nghyd-destun ymgais y DU i lunio cytundebau dwyochrog rhwng y DU â gwledydd eraill yn yr UE sy'n sicrhau hawliau pleidleisio cilyddol mewn etholiadau llywodraeth leol. Fodd bynnag, gellir gweld y bydd y mater yn codi'n aml petaem yn ymadael â'r UE ac mae iddo oblygiadau cyfansoddiadol ehangach.

Rhoddodd Llywodraeth y DU wybod i ni am y negodiadau hyn braidd yn hwyr, ar ôl i gytundeb gyda Sbaen gael ei gytuno mewn egwyddor.

O safbwynt y polisi presennol, nid yw hyn yn peri problem; mae'n gwbl gydnaws ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru a mwyafrif mawr yn y Cynulliad i estyn y rhyddfraint i bob gwladolyn tramor fel rhan o'n nod o wneud Cymru'n wlad groesawgar. At hynny, ni fydd yn gofyn am unrhyw gamau gweithredu penodol ar ran Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad. Fodd bynnag, wrth lunio cytundebau sy'n clymu pob rhan o'r DU i estyn y rhyddfraint i wladolion gwledydd penodol eraill, mae Llywodraeth y DU, mewn gwirionedd, yn cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol y sefydliadau datganoledig yn y dyfodol, gan na fyddai modd i Gynulliad Cenedlaethol ac iddo safbwynt gwleidyddol gwahanol ddeddfu i dynnu'r rhyddfraint oddi ar ddinasyddion o'r fath.

Yn achos y cytundebau hyn yn benodol, mae mecanwaith i'w gael ar gyfer addasu'r cytundebau ar hawliau pleidleisio cilyddol, ac rydym wedi pwysleisio bod angen proses ar gyfer gofyn am gael defnyddio'r mecanwaith hwn i ddileu Cymru o gytundeb os bydd Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru arall yn y dyfodol yn mabwysiadu safbwynt polisi sy'n wahanol i'n safbwynt ni.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er gwaethaf hynny, bydd yr egwyddor gyfansoddiadol sydd ar waith yn berthnasol i bob cytundeb rhyngwladol y gall y DU geisio eu gwneud yn y dyfodol, yn yr UE a gyda thrydydd gwledydd yn fwy eang, sy'n croestorri â chymhwysedd datganoledig.

Rydym wedi pwysleisio wrth Lywodraeth y DU fod rhaid i Lywodraeth Cymru gael cymryd rhan lawn yn y broses o negodi cytundebau o'r fath er mwyn sicrhau na wneir ymrwymiadau ar ein rhan heb inni gytuno. Mae'r trafodaethau ar y pwyntiau hyn yn mynd rhagddynt, yn enwedig yng nghyd-destun yr Adolygiad o'r Berthynas rhwng Llywodraethau.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo, beth bynnag, i drefnu bod llythyrau Gweinidogol yn cael eu hanfon atom ym mhob achos lle mae cytundeb rhyngwladol arfaethedig yn croestorri â chymhwysedd datganoledig, er mwyn rhoi digon o gyfle i Lywodraeth Cymru dynnu sylw at unrhyw anawsterau y gallem eu gweld yn yr hyn sy'n cael ei gynnig. Rydym wedi pwysleisio hefyd ei bod yn bwysig ein bod yn cael cyfle i ymgysylltu â'r Cynulliad ymlaen llaw.

Byddwn yn croesawu barn y Cynulliad ar y pwynt olaf hwn yn arbennig. Rwy'n awyddus, naill ai cyn i lythyrau gael eu cyfnewid rhwng y Gweinidogion ynglŷn â'r goblygiadau rhyngwladol sy'n rhwymo'r DU neu yn ystod y cyfnod hwn o gyfnewid llythyrau, fod y Cynulliad a/neu ei bwyllgorau yn cael y cyfle i fynegi barn. Rwy'n awyddus i gydweithio â chi i sefydlu proses neu weithdrefn ar gyfer hyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn ogystal â'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

Mark

**MARK DRAKEFORD**